Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf / Our ref: MA-P-JH-3184-19

John Griffiths AC
Cadeirydd y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1NA

10 Hydref 2019

Annwyl John,

Yn eich llythyr dyddiedig 18 Rhagfyr 2018, gofynnoch imi anfon diweddariadau rheolaidd bob tri mis gan y Cynghorwyr Cenedlaethol, er mwyn ichi gael sicrwydd o gyflymder gweithredu Deddf Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol 2015.

Rwy'n falch iawn i amgáu'r trydydd diweddariad gan y Cynghorwyr Cenedlaethol sy'n ymdrin â'r cyfnod o fis Gorffennaf i fis Medi 2019.

Yn gywir

Jane

**Jane Hutt AC/AM**
Y Dirprwy Weinidog a'r Prif Chwip
Deputy Minister and Chief Whip

**Adroddiad y Cynghorwyr Cenedlaethol i Bwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol - diweddariad Medi 2019**

## 1. Diben

Yn ei llythyr dyddiedig 18 Rhagfyr 2018 i'r Dirprwy Weinidog a'r Prif Chwip, gofynnodd John Griffiths AC, Cadeirydd y Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol imi anfon diweddariadau rheolaidd gan y Cynghorwyr Cenedlaethol, er mwyn rhoi sicrwydd o gyflymder gweithredu Deddf Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru) 2015.

Dyma'r trydydd diweddariad gan y Cynghorwyr Cenedlaethol sy'n ymwneud â'r cyfnod o fis Gorffennaf 2019 i fis Medi 2019 (yn gynhwysol).

Mae'r is-benawdau isod, "Cynghorwyr Cenedlaethol" a "Swyddogion VAWDASV Llywodraeth Cymru," yn dangos perchenogaeth o'r camau gweithredu sydd ym mhob adran.

## 2. Cyflwyniad

Cynghorwyr Cenedlaethol:
Mae'r Cynghorwyr Cenedlaethol yn cydnabod bod hwn yn faes gwaith trawsbynciol sy'n gofyn am ymrwymiad ar draws adrannau Llywodraeth Cymru, awdurdodau lleol, y sector cyhoeddus, sefydliadau Llywodraeth y Deyrnas Unedig, y trydydd sector a phartneriaid perthnasol eraill

Rydym wedi cwblhau aelodaeth a chylch gorchwyl drafft y Grŵp Rhanddeiliaid Arbenigol ar Drais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (VAWDASV) a gyfarfu am y tro cyntaf yn ystod y chwarter hwn.

Rydym wedi cael cyfarfod ffurfiol â'r pedwar Cyfarwyddwr Cyffredinol yn Llywodraeth Cymru ac maent wedi cytuno i gael trafodaeth unigol neu ar lefel cyfarwyddwyr wrth wneud penderfyniad ar y cyd gyda'r Grŵp Rhanddeiliaid Arbenigol. Maent hefyd wedi cytuno i gael cyfarfod pellach â ni, bob hanner blwyddyn, er mwyn sicrhau bod VAWDASV yn parhau i fod yn flaenoriaeth ar draws y llywodraeth.

## 3. Dangosyddion cenedlaethol

Swyddogion VAWDASV Llywodraeth Cymru:

Fel y cynigwyd yn y diweddariad Ebrill-Mehefin a roddwyd gerbron y pwyllgor, mae'r Gweithgor Dangosyddion Cenedlaethol bellach wedi cael ei sefydlu, ac ar hyn o bryd, mae'n adolygu'r Dangosyddion VAWDASV Cenedlaethol, y mesurau a'r ffynonellau data arfaethedig, gyda'r nod o gytuno ar newidiadau erbyn haf 2020. Cyfarfu'r grŵp

am y tro cyntaf ar 12 Medi 2019 a bydd yn parhau i gyfarfod yn fisol hyd nes y bydd y dangosyddion wedi eu datblygu yn llawn.

Mae'r grŵp yn edrych ar ddefnydd data agored i oresgyn problemau y tynnwyd sylw atynt yn ystod y camau ymgynghori ynghylch y ffaith bod diffyg data cyson ar gael drwy Gymru.

Cynghorwyr Cenedlaethol:

Yn y chwarter hwn, yn dilyn cyhoeddi'r Dangosyddion Cenedlaethol drafft ar gyfer VAWDASV, mae'r Llywodraeth wedi trefnu nifer o ddigwyddiadau ymgynghori yr ydym yn eu cadeirio yn ystod yr hydref.

## 4. Strategaethau Lleol

Cynghorwyr Cenedlaethol:
Cyhoeddwyd yr adroddiadau cynnydd ar y strategaethau lleol yn yr haf. Rydym yn bwriadu ystyried yr ymatebion gyda'r nod o bennu arfer gorau yn y maes hwn. Cyfarfuom â'r Gymdeithas Genedlaethol er Atal Creulondeb i Blant, Plant yng Nghymru a Cymorth i Ferched Cymru i drafod eu diffyg ffocws ymddangosiedig ar blant a phobl ifanc o fewn y strategaethau hyn. Byddwn yn ymchwilio i'r pryderon hyn o fewn y chwarter nesaf gyda'r golwg ar nodi unrhyw welliannau ac adrodd arnynt i brif swyddogion gweithredol.

Mae gwasanaethau proffesiynol o ansawdd gan staff rheng flaen yn hanfodol er mwyn bodloni'r nod cyffredinol, sef gwella'r ffordd y mae'r sector cyhoeddus yn ymateb i anghenion goroeswyr.

## 5. Canllawiau Statudol

Swyddogion VAWDASV Llywodraeth Cymru:

*Canllawiau Comisiynu Rhanbarthol*

Mae'r Canllawiau Statudol ar gyfer Comisiynu Gwasanaethau VAWDASV yng Nghymru yn parhau i gael ei gyflwyno fesul cam i'r holl awdurdodau perthnasol o dan Ddeddf Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru) 2015.

*Y Fframwaith Hyfforddi Cenedlaethol*

Rhaid i awdurdodau perthnasol baratoi adroddiad blynyddol o'r cynnydd a wnaethant, ar lefel rhanbarthol neu lefel leol, o ran cyflwyno'r camau sydd wedi eu pennu yn eu cynlluniau hyfforddi lleol fel sy'n ofynnol gan y canllawiau statudol ar y Fframwaith Hyfforddi Cenedlaethol ar gyfer Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol.

Ym mis Mai 2019, cyflwynodd yr awdurdodau perthnasol eu hail adroddiad blynyddol i Lywodraeth Cymru. Dros y ddwy flynedd diwethaf mae gwaith partneriaeth sylweddol wedi mynd rhagddo mewn perthynas â chynllunio a chyflwyno'r Fframwaith Hyfforddi Cenedlaethol drwy Gymru. Mae llawer o'r heriau cynnar sy'n gysylltiedig â'r gwaith o gyflwyno'r Fframwaith wedi eu goresgyn ac mae'n amlwg bod gwaith sylweddol wedi ei wneud er mwyn bodloni gofynion y canllawiau statudol.

Erbyn Mawrth 2019, roedd 167,207 o bobl yng Nghymru wedi cael mynediad at hyfforddiant o dan y Fframwaith Hyfforddi Cenedlaethol.

Mae gwasanaethau wedi bod yn gweithio tuag at gwblhau'r modiwl e-ddysgu Grŵp 1 (hyfforddiant ymwybyddiaeth sylfaenol) ac mae'r gyfradd gwblhau ar gyfer pob awdurdod lleol wedi codi y llynedd.

- Y gyfradd gwblhau ar gyfer yr holl Awdurdodau Tân ac Achub yw: 93%
- Y gyfradd gwblhau ar gyfer yr holl Fyrddau Iechyd Lleol yw: 81%
- Y gyfradd gwblhau ar gyfer yr holl awdurdodau lleol yw: 60%

Mae gweithwyr proffesiynol yn y sector cyhoeddus yn parhau i gael eu hyfforddi drwy ein hyfforddiant ymyrraeth gynnar ac atal, sef ‘Gofyn a Gweithredu’ (grŵp 2 a 3), pan fo adnabod achosion o reolaeth drwy orfodaeth yn un o'r elfennau allweddol, ac mae 3,000 o weithwyr yn y sector cyhoeddus wedi eu hyfforddi hyd yn hyn. Mae hyfforddiant ‘Gofyn a Gweithredu’ ar gael bellach ledled Gwent, Cwm Taf, Gogledd Cymru, yn ogystal â’r Gwasanaethau Tân ac Achub, Ymddiriedolaeth Gwasanaeth Ambiwlans Cymru a’r Byrddau Iechyd a’r Ymddiriedolaethau Iechyd. Bydd y gwaith o gyflwyno ‘Gofyn a Gweithredu’ yn llawn yn cael ei gwblhau yn ystod 2020-21. Mae cyfarfodydd gweithredu wedi cychwyn ym Mhen-y-bont ar Ogwr a Bae’r Gorllewin, Abertawe.

Mae'r gwaith cynllunio'n mynd rhagddo ar gyfer cwrs arall a ariennir yn llawn gan Lywodraeth Cymru a chwrs rheolwyr gwasanaeth i grwpiau 4 a 5 yn y fframwaith (y rheini sy'n arbenigo ym maes VAWDASV), a gweithdai rhanbarthol i arweinwyr grŵp 6 (sy'n cynnwys y rheiny sydd â chyfrifoldebau comisiynu a chynllunio) i gychwyn ym mis Hydref.

Mae swyddogion Llywodraeth Cymru, mewn partneriaeth â Chynulliad Cenedlaethol Cymru yn trefnu bod hyfforddiant ‘Gofyn a Gweithredu’ ar gael i holl Aelodau'r Cynulliad a’u staff cymorth. Mae cyfarfod cynllunio yn yr amserlen ar gyfer mis Hydref. Bydd yr hyfforddiant yn ddefnyddiol wrth iddynt gynnal digwyddiadau yn eu hetholaethau. Mae'n caniatáu i Aelodau’r Cynulliad drafod mewn ffordd rhagweithiol, a hynny mor gynnar â phosibl, gydag unigolion sydd yn agored i niwed ac yn profi trais a chamdriniaeth, ac i'w cyfeirio at y gwasanaethau cymorth perthnasol.

Mae swyddogion Llywodraeth Cymru wedi bod yn trafod â rhanddeiliaid allweddol ac arweinwyr ardaloedd peilot er mwyn edrych ar sut y bydd cymorth y trydydd sector yn parhau drwy'r cam nesaf o gyflwyno ‘Gofyn a Gweithredu’.

<u>Cynghorwyr Cenedlaethol:</u>

Aeth y Cynghorwyr i gyfarfod Rhwydwaith Diogelu GIG Cymru ym mis Gorffennaf. Un o'r negeseuon allweddol a gafodd eu cyfleu gennym oedd bod angen gwella llwybrau atgyfeirio VAWDASV ym maes iechyd, yn enwedig ar gyfer dioddefwyr cam-drin rhywiol a cham-drin hanesyddol. Pwysleisiwyd pa mor bwysig oedd gwella canlyniadau iechyd ar gyfer grwpiau amrywiol. Roedd ein cyfraniad yn tynnu sylw at yr angen am ddull gweithredu iechyd y cyhoedd er mwyn mynd i'r afael â cham-drin rhywiol a domestig a thrais. Roeddem wedi pwysleisio hefyd yr angen i hyfforddiant wneud gwahaniaeth o ran y ffordd y mae gweithwyr proffesiynol yn cefnogi dioddefwyr drwy adnabod yn gynnar, lleihau risg ac ailadrodd erledigaeth.

## 6. Iechyd

Swyddogion VAWDASV Llywodraeth Cymru:

Cyfarfu swyddogion â chynrychiolwyr o raglen IRIS (Adnabod ac Atgyfeirio er mwyn Gwella Diogelwch) mewn meddygfeydd Meddyg Teulu er mwyn trafod pa mor debyg yw 'Gofyn a Gweithredu' ac IRIS. Pan fo cyllid ar gael i gyflwyno IRIS, cytunwyd mai dyma oedd y llwybr priodol ar gyfer meddygfeydd Meddyg Teulu gan bod cymorth ychwanegol ar gael gan Eiriolwr Addysgwr; fel arall bydd hyfforddiant 'Gofyn a Gweithredu' yn cael ei gyflwyno i gefnogi'r broses adnabod yn gynnar ac atgyfeirio.

Cynghorwyr Cenedlaethol:

Roeddem yn hynod ffodus o gael cwrdd â Chyfarwyddwyr Cyffredinol y Llywodraeth i drafod sut y gellir cydlynu gwaith VAWDASV ar draws yr holl adrannau. Rydym yn awyddus i edrych ar sut y gellir gwella pa mor gydnaws yw blaenoriaethau VAWDASV a sut y gallwn nodi meysydd o arfer da a phrif ffrydio'r dull gweithredu iechyd y cyhoedd o ran cael gwared ar VAWDASV.

## 7. Addysg

Swyddogion VAWDASV Llywodraeth Cymru:

Bydd Addysg Rhyw a Pherthnasoedd yn cael ei ail-enwi yn Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb (RSE). Bydd hyn yn rhan statudol o'r cwricwlwm newydd i'r holl ddysgwyr rhwng 3 a 16 oed a bydd y canllawiau wedi'u diweddaru yn cael eu cyhoeddi ar gyfer y cwricwlwm newydd. Cyfrannodd swyddogion VAWDASV at y canllawiau diweddaraf hyn ar gyfer RSE yn y cwricwlwm cyfredol yng Nghymru: yn ddiweddar, cyhoeddwyd y canllawiau ar gyfer ymgynghoriad ffurfiol. Mae'r canllawiau yn rhoi ystyriaeth i dystiolaeth a gyflwynwyd gan Banel Arbenigwyr Addysg Rhyw a Pherthnasoedd gan anelu at roi'r wybodaeth a'r gefnogaeth ddiweddaraf ynghylch y maes astudio hwn, sydd, gan amlaf, yn sensitif ac yn symud yn gyflym.

Cyfarfu swyddogion â CBAC i drafod datblygiad Rhaglen Mentora Cymheiriaid Iechyd a Lles Bagloriaeth Cymru. Byddwn yn cydweithio â CBAC i lunio her a diben

benodol er mwyn treialu'r Rhaglen drwy ysgolion yn Ne Cymru yn gynnar yn 2020 cyn gweithredu'r Rhaglen yn llawn erbyn mis Medi 2020.

Mae CCAUC yn datblygu canllawiau VAWDASV gyda chymorth swyddogion, gyda'r nod o gyhoeddi'r canllawiau a'u dosbarthu ym mhrifysgolion Cymru erbyn mis Ebrill 2020.

## 8. Anffurfio Organau Cenhedlu Benywod (FGM), Cam-drin ar sail anrhydedd (HBA), a phriodas dan orfod (FM)

Swyddogion VAWDASV Llywodraeth Cymru:

Edrychwyd eto ar aelodaeth Grŵp Arweinyddiaeth Cam-drin ar sail Anrhydedd Cymru Gyfan er mwyn sicrhau bod yr aelodau yn arweinwyr ar gam-drin ar sail anrhydedd yn eu sefydliadau. Roedd cyfarfod wedi ei gynnal gyda'r aelodaeth newydd ar 12 Awst. Roedd y drafodaeth wedi canolbwyntio ar gylch gorchwyl, trafodaethau ystyrlon, cydlafurio a chyflenwi blaenoriaethau. Cytunwyd y dylid rhoi "cam-drin" yn lle "trais", gan fod cam-drin yn cynnwys pob math o gam-drin, emosiynol, seicolegol ac ariannol yn well. Roedd y cyfarfod nesaf wedi ei amserlennu ar gyfer mis Tachwedd.

Cynghorwyr Cenedlaethol:

Mae ein trafodaethau gyda grwpiau pobl dduon ac Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig (BAME) wedi tynnu sylw at yr angen i sefydlu Panel Dysgu. Byddwn yn defnyddio ein profiad o achosion blaenorol sydd wedi dod i'n sylw ac yn trafod â'r holl asiantaethau perthnasol i nodi gwelliannau i'r modd o gyflwyno'r gwasanaeth.

## 9. Model Cyllid Cynaliadwy

Swyddogion VAWDASV Llywodraeth Cymru:

Mae'r gwaith i ddatblygu model cyllid cynaliadwy ar gyfer VAWDASV yn parhau drwy'r Grŵp Cyllid Cynaliadwy.

Cynghorwyr Cenedlaethol:

Rydym yn cadeirio'r grŵp cyllid cynaliadwy ac yn parhau i weld y dasg o reoli disgwyliadau rhanddeiliaid yn heriol. Rydym wedi nodi diffyg cydlyniant gyda chomisiynwyr ar draws Cymru ac mae'r gwaith o ddarparu dull gweithredu cydlynol yn parhau i fynd rhagddo.

Mae'n her i aelodau'r grŵp ddeall y cysyniad o gyllid cynaliadwy nad yw'n ddibynnol ar gefnogaeth ariannol gan Lywodraeth Cymru. Byddwn yn cynnal gweithdai yn ystod y chwarter nesaf i hybu grŵp comisiynu ar wahân er mwyn darparu trywydd at nodi cyfleoedd cyllid ar y cyd pan fo hynny'n bosibl. Rydym yn bwriadu edrych ar ddull gweithredu Rhanbarth Caerdydd a'r Fro o ran comisiynu, sy'n golygu gweithio tuag at gylch o saith mlynedd.

## 10. Dyraniadau Cyllid

Swyddogion VAWDASV Llywodraeth Cymru:

**Cyllid Refeniw**
Ers y diweddariad diwethaf, yr un yw'r sefyllfa; Mae Llywodraeth Cymru yn parhau i ddarparu cyllid refeniw i Bartneriaethau Rhanbarthol a sefydliadau'r trydydd sector bob blwyddyn.

Mae swyddogion yn parhau i fonitro cyflenwi ar sail cynlluniau cyflenwi rhanddeiliaid fesul cylch hawlio bob chwarter, sy'n cynnwys cyfarfodydd monitro.

**Cyllid Cyfalaf**
Mae'r cynllun grant cyfalaf ar gyfer 2019-2020, sy'n gyfanswm o £969k wedi ei gyflwyno ac wedi denu lefelau o ddiddordeb nas gwelwyd mo'i fath. Mae gwerth dros £1.4m o geisiadau wedi dod i law yn y cam ceisiadau llawn gan amrywiaeth o randdeiliaid, sy'n cynnwys sefydliadau anstatudol a sefydliadau o'r trydydd sector. Mae swyddogion wrthi ar hyn o bryd yn sgorio'r ceisiadau ar sail meini prawf cadarn, a bydd ymgeiswyr yn cael y canlyniad yn yr hydref.

## 11. Gweithio gyda Throseddwyr

Swyddogion VAWDASV Llywodraeth Cymru:

Cynhaliwyd digwyddiadau rhannu arferion yng Nghaerdydd a Chyffordd Llandudno ym mis Gorffennaf. Daeth llawer i'r digwyddiadau hyn a cafwyd cyflwyniadau gan STOP-SO, Drive a Caring Dads.

Ym mis Gorffennaf cafwyd cyfarfod i drafod y llif gwaith VAWDASV sy'n gysylltiedig â'r ‘Fframwaith i Gefnogi Newid Cadarnhaol ar gyfer y rhai sydd mewn Perygl o Droseddu yng Nghymru. Mae'r grwpiau gorchwyl a gorffen sy'n adrodd ar y llif gwaith yn mynd rhagddo bellach, yn canolbwyntio ar gomisiynu gwasanaethau i droseddwyr, safonau gwasanaeth a thrafod â defnyddwyr gwasanaeth.

Mae Llywodraeth Cymru yn darparu cefnogaeth barhaus a goruchwyliaeth i astudiaeth ymchwil Prifysgol Abertawe ar aflonyddwch, sy'n cael ei hariannu gan Lywodraeth Cymru mewn cydweithrediad â KESS II (Ysgoloriaethau Sgiliau'r Economi Wybodaeth), rhan o Gronfa Gymdeithasol Ewrop.

Bydd canllawiau arfer da Llywodraeth Cymru ar gyfer gwasanaethau cyhoeddus sy'n gweithio â throseddwyr yn cael ei gyhoeddi ym mis Hydref.

Cynghorwyr Cenedlaethol:

Rydym yn parhau i dynnu sylw at yr angen am y gwaith hwn fel rhan o'r agwedd ar "atal" yn Neddf Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru) 2015.

## 12. Fframwaith Cenedlaethol ar gyfer Ymgysylltu â Goroeswyr

Yn ychwanegol at y diweddariad diwethaf, mae'r prosiect peilot i ddatblygu Fframwaith Cenedlaethol ar gyfer ymgysylltu â goroeswyr wedi parhau. Mae model theori o newid ar gyfer ymgysylltu â goroeswyr wedi ei ddatblygu.

Roedd canfyddiadau o'r arolwg i drafod â'r goroeswyr hynny a oedd wedi'u tangynrychioli yn ein trafodaethau hyd yma (101 o ffurflenni) yn cefnogi ffurfio panel peilot sydd bellach wedi'i sefydlu. Cyfarfu'r panel am y tro cyntaf ar 30 Medi ac roedd yn cynnwys cymysgedd o oedrannau, rhyw ac ethnigrwydd.

Diben y panel peilot fydd i oroeswyr rannu eu gwybodaeth a'u profiad byw er mwyn dylanwadu ar ddatblygiad y strategaeth genedlaethol nesaf ar drais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol. Bydd y panel peilot hefyd yn cyfrannu at waith y grŵp rhanddeiliaid arbenigol o dan gadeiryddiaeth gan yr Cynghorwyr Cenedlaethol.

Bydd y Panel yn cael ei fonitro dros y cyfnod o dri mis. Cynhelir cyfarfodydd gwerthuso gyda'r rhai sy'n trafod â ni, a chânt eu cyfuno â chanfyddiadau eraill o'r gwaith peilot er mwyn sefydlu ai dyma'r dull gorau o weithredu ac a yw lleisiau a phrofiadau'r goroeswyr wedi gwneud gwahaniaeth. Bydd hyn yn llywio'r adroddiad terfynol a fydd yn dylanwadu ar fframwaith ymgysylltu a goroeswyr sy'n gynaliadwy, a rhagwelwn y bydd yn cynnwys amryw o ffyrdd i drafod â goroeswyr ledled Cymru.

Cynghorwyr Cenedlaethol:

Rydym yn parhau i drafod â'r rhwydweithiau dioddefwyr a goroeswyr ac maent yn parhau i fod yn ganolog i'r gwaith o ddatblygu polisi. Fodd bynnag, yr ydym yn parhau i bryderu am gynaliadwyedd rhai grwpiau a chymhlethdodau gwledig/trefol o ran darparu gwasanaethau.

## 13. Byw Heb Ofn

Swyddogion VAWDASV Llywodraeth Cymru:

Mae swyddogion wedi comisiynu astudiaeth gwerthusadwyedd i lywio contractau yn y dyfodol ar gyfer darparu'r Llinell Gymorth Byw Heb Ofn. Bydd yr astudiaeth yn caniatáu i feini prawf gwerthuso gwell fod yn rhan o fanyleb y contract pan gaiff y contract ei ail-osod y flwyddyn nesaf.

Cynghorwyr Cenedlaethol:

Mae'r Cynghorwyr Cenedlaethol yn falch o nodi'r cynnydd yn nifer y dilynwyr newydd a'r drafodaeth fywiog ar-lein a'r adborth a gynhyrchwyd gan ymgyrchoedd cyfathrebu Llywodraeth Cymru. Lle y bo'n bosibl, mae'r Cynghorwyr Cenedlaethol yn parhau i rannu negeseuon allweddol am eu priod sianeli cyfryngau cymdeithasol.

## 14. Cyfathrebu

Swyddogion VAWDASV Llywodraeth Cymru:

*Ymgyrchoedd*

Mae'r gwaith cynllunio ar gyfer cam 3 a 4 o ymgyrch 'Nid cariad yw hyn. Rheolaeth yw Hyn', a lansiwyd ym mis Ionawr 2019, wedi parhau i ddatblygu yn ystod y cyfnod hwn. Mae'r ymgyrch yn tynnu sylw at natur beryglus, gronnus rheolaeth drwy orfodaeth yn ogystal â'r cyfrwystra cysylltiedig. Bydd yn parhau i adlewyrchu mwy o enghreifftiau o ymddygiadau rheoli drwy ystod o brofiadau gydol y flwyddyn. Bydd Cam 3 a 4 o'r ymgyrch yn adlewyrchu profiadau pobl ifanc, rheolaeth a thrais rhywiol. Bydd Cam 3 yn tynnu sylw at yr heriau sy'n wynebu pobl ifanc wrth iddynt ddatblygu cydberthynasau a theimlad o hunaniaeth unigol. Bydd Cam 4yn parhau i edrych ar gamfanteisio, meithrin perthynas amhriodol, codi ofn a rheoli, ac yn tynnu sylw at sut mae hyn yn edrych pan fo'n digwydd o fewn teuluoedd a pherthnasau agos.

Mae swyddogion Llywodraeth Cymru wedi bod yn trafod â'r Grŵp Arbenigol o Rhanddeiliaid Cyfathrebu, y rhanddeiliaid allweddol sy'n arbenigo mewn trais rhywiol a phobl ifanc a goroeswyr, a hynny er mwyn datblygu negeseuon a delweddaeth ar gyfer y ddau gam nesaf.

Mae data dangosol cynnar gan yr heddlu ac o Linell Gymorth Byw Heb Ofn yn parhau i ddangos bod yr ymgyrch yn cael effaith ar nifer y galwadau ynghylch troseddau rheolaeth drwy orfodaeth a nifer y troseddau rheolaeth drwy orfodaeth yr adroddir arnynt yng Nghymru.

Rydym wedi gweithio'n agos gyda chydgysylltwyr rhanbarthol i ofyn am gynigion am weithgareddau cyfathrebu cymunedol eleni. Bydd gweithgareddau cyfathrebu cymunedol yn cael eu hariannu ym mhob rhanbarth a fydd yn cynnig cyfle i ganolbwyntio ar ein hymgyrchoedd blaenorol a'n hymgyrch ddiweddaraf: 'Nid Cariad yw Hyn. Rheolaeth yw Hyn'. Bydd gweithgareddau eleni yn cael eu harwain gan oroeswyr achosion o gam-drin, mewn partneriaeth â rhanddeiliaid arbenigol ar draws y saith ardal ranbarthol yng Nghymru.

Rydym hefyd wedi cynnal ymgyrchoedd bychan ar sianeli cyfryngau cymdeithasol Byw Heb Ofn, yn tynnu sylw at ein llwyddiannau yn yr adroddiad blynyddol a'r ymrwymiadau o ran aflonyddu ar y stryd, a gafwyd o ddigwyddiad bord gron a gynhaliwyd gyda sefydliadau'r sector cyhoeddus.

## 15. Casgliadau

Cynghorwyr Cenedlaethol:

Rydym wedi paratoi ein hadroddiad blynyddol ar gyfer 2018-19 yn unol â'n cyfrifoldeb statudol i ddarparu adroddiad cynnydd blynyddol i Weinidogion Cymru. Fe'i cyhoeddwyd ar 30 Medi.

Roeddem yn bresennol yn y drafodaeth Bord Gron ar Gam-drin Domestig o dan gadeiryddiaeth y Gwir Anrhydeddus Priti Patel AS, yr Ysgrifennydd Cartref ar 28 Awst. Cyflwynom enghreifftiau o'n gwaith, ein grwpiau VAWDASV cenedlaethol a sut yr ydym yn mynd ati i atal, amddiffyn a chefnogi. Yn benodol, roedd yr Ysgrifennydd Cartref yn awyddus i gael gwybod mwy am ba mor effeithiol oedd Cymru am godi ymwybyddiaeth o faterion VAWDASV. Mae'r Cynghorwyr Cenedlaethol yn awgrymu bod cyfarfodydd rheolaidd yn cael eu cynnal rhwng swyddogion perthnasol Llywodraeth y Deyrnas Unedig, yn benodol y Comisiynydd cam-drin Domestig. Rydym hefyd am annog cydweithrediad parhaus a dysgu ymhlith swyddogion y pedair gweinyddiaeth.

Cynghorwyr Cenedlaethol

Medi 2019